



**Cyngor Sir y Fflint**

**Sgwrs Fawr am y Gyllideb**

**Adroddiad cryno**

**Medi 2014**

## Cynnwys

Diben yr ymgynghoriad	3
Cyfnod yr ymgynghoriad	3
Ymatebion	3
Beth oedd gan bobl i'w ddweud wrthym	
Yr ystadegau	3
Yr ymateb	4
Cyfryngau cymdeithasol – Twitter @Flintshirecc	6
Y broses ymgynghori	
Y fethodoleg a ddefnyddiwyd	6
Pwy oedd yn gallu cymryd rhan	7
Gwybodaeth ddemograffig	8
Y camau nesaf	10
Graffiau a siartiau	11

## **Diben yr ymgynghoriad:**

- Codi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa bresennol o ran y gyllideb a'r problemau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor, gan gyfeirio'n benodol at effaith y gostyngiad posibl o 4.5% yn y cyllid a geir gan Lywodraeth Cymru
- Mesur y gefnogaeth sydd i rai o'r penderfyniadau anodd sy'n ein hwynebu

## **Cyfnod yr ymgynghoriad:**

- O ddydd Llun 18 Awst 2014 tan ddydd Gwener 12 Medi 2014 – ond roedd ar agor i'r Aelodau etholedig a'r gweithlu brynhawn dydd Gwener 15 Awst.

## **Ymatebion:**

- Dychwelwyd cyfanswm o 690 o ffurflenni. Llanwyd 654 o'r rhain ar-lein a 36 ar gopi papur.

## **Beth ddywedodd pobl wrthym**

### **Yr ystadegau**

Roedd yn amlwg o'r ymatebion a ddaeth i law fod y mwyafrif a gymerodd ran naill ai'n bryderus iawn (23%) neu'n bryderus (72%) am y risgiau i wasanaethau lleol y Cyngor oherwydd toriadau yn y gyllideb genedlaethol.

Pan ofynnwyd a ddylid diogelu gwasanaethau lleol y Cyngor wrth wneud penderfyniadau cenedlaethol am y gyllideb, o'r rhai a ymatebodd, roedd cefnogaeth weddol gyfartal i'w diogelu'n rhannol (47%) ac i'w diogelu'n llawn (45%). Teimlai 96% hefyd y dylem i gyd leisio barn er mwyn sicrhau bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn deall ein pryderon am y bygythiadau i wasanaethau lleol.

Roedd y wybodaeth a roddwyd i helpu pobl i ddeall y problemau sy'n wynebu'r Cyngor yn cynnwys yr angen i newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a gofynnwyd nifer o gwestiynau i fesur faint o gefnogaeth oedd iddynt.

Roedd mwyafrif clir (85%) am i'r cynghorau lleol ymuno â'i gilydd i ddarparu gwasanaethau pe bai hynny'n golygu gwasanaethau mwy effeithlon. Byddai 68% yn cefnogi'r Cyngor pa bai'n rhaid gwneud 'rhaid newidiadau' i'r ffordd y mae'n darparu rhai o'i wasanaethau. Byddai ffigur is (26%) yn cefnogi 'newidiadau mawr' tra oedd 6% yn gwrthod cefnogi unrhyw fath o newidiadau 'dan unrhyw amodau'.

Pan ofynnwyd iddynt ddweud a fyddent yn cefnogi codi tâl uwch am wasanaethau os oedd hynny'n golygu y gellid diogelu'r gwasanaethau hynny, dim ond 8% oedd yn cefnogi codi tâl 'dan unrhyw amodau'. Byddai 75%, fodd bynnag, o blaid cynnydd 'fforddiadwy'. Ni fyddai 17% yn cefnogi unrhyw fath o gynnydd 'dan unrhyw amodau'.

Mae £61m (24%) o gyllideb net blynyddol y Cyngor yn cael ei godi drwy gasglu'r Dreth Gyngor, a chododd hon tua 3% y flwyddyn yn ddiweddar. Gofynnodd cwestiwn 7 a fyddai pobl yn cefnogi cynnydd dros 3%. Dywedodd ychydig dros hanner (51%) y byddent yn cefnogi cynnydd 'fforddiadwy', er na fyddai 44% yn cefnogi cynnydd 'dan unrhyw amodau'. Byddai nifer fechan iawn (5%) yn cefnogi codi'r Dreth Gyngor 'dan unrhyw amodau'.

Er mwyn ymdopi â'r problemau, esboniodd y Cyngor fod angen meddwl nid yn unig am y modd y caiff gwasanaethau eu darparu ond pwy ddylai eu rhedeg. Gofynnwyd a ddylai cynghorau tref a chymuned a chyrrff gwirfoddol redeg gwasanaethau a chyfleusterau mwy lleol roedd 68% o blaid y syniad a 32% yn erbyn. Roedd gan 60% 'ddiddordeb' neu 'ddiddordeb mawr' mewn helpu i redeg gwasanaethau lleol yn eu cymunedau eu hunain, ond nid oedd gan 40% ddiddordeb yn hynny.

I helpu gyda cham nesaf y Sgwrs Fawr am y Gyllideb yn ddiweddarach eleni, gofynnwyd i bobl nodi sut y byddai'n well ganddynt gymryd rhan. Gwefan y Cyngor oedd y dull mwyaf poblogaidd, 'Eich Cyngor Chi,' cylchgrawn ar-lein newydd y Cyngor, a sgwrs wyneb yn wyneb oedd y dulliau mwyaf poblogaidd wedyn, ac yna Twitter. Gofynnwyd i bobl hefyd nodi dulliau eraill o gymryd rhan. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys grwpiau ffocws, drwy'r post, e-bost, negeseuon testun SMS, fforymau ar-lein, sioeau teithiol.

## **Ymateb**

Yn ogystal ag ateb cwestiynau penodol, roedd gan bobl hefyd gyfle i roi ymateb cyffredinol drwy gyfrwng blwch sylwadau. Cafwyd sylwadau gan ychydig dros hanner yr holl ymatebwyr.

Cafwyd sylwadau hefyd drwy gyfrwng y cylchgrawn ar-lein a negeseuon e-bost. Casglwyd yr holl sylwadau mewn un ddogfen gynhwysfawr.

Gellir rhannu'r ymatebion a gafwyd yn dri chategori.

- **Codi'r Dreth Gyngor**  
Yn gyffredinol, roedd 51% o'r ymatebwyr o blaid codi'r Dreth Gyngor uwchlaw 3% cyhyd ag y bo'r cynnydd yn 'fforddiadwy'. Fodd bynnag, o'r rhai a gynigiodd sylwadau ychwanegol, roedd y mwyafrif yn erbyn unrhyw gynnydd.
- **Diogelu gwasanaethau**  
Roedd yn amlwg o'r ymateb a gafwyd bod gwasanaethau cymdeithasol i'r ifanc ac i bobl sy'n agored i niwed yn cael eu hystyried yn werthfawr ac mai'r rhain oedd y gwasanaethau y dylid eu diogelu dan unrhyw amodau.

Y gwasanaethau eraill a nodwyd oedd gwasanaethau ieuencid a soniwyd am y modd roeddent yn helpu i fagu hyder a datblygu sgiliau bywyd. Cyfeiriwyd hefyd at gyfraniad gwasanaethau hamdden at ieuchyd a lles pobl Sir y Fflint. Efallai oherwydd y sylw yn y cyfryngau'n ddiweddar, cafwyd sylwadau penodol am ddyfodol Canolfan Hamdden Treffynnon.

Ar y llaw arall, roedd rhai o'r farn y byddai penderfyniad i ddiogelu'r gwasanaethau cymdeithasol hanfodol yn peryglu gwasanaethau diwylliannol, sydd hefyd yn cyfrannu at les pobl y Sir. Teimlai eraill na ddylid diogelu gwasanaethau o gwbl i sicrhau bod yr holl wasanaethau'n cael eu rhedeg mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Soniwyd hefyd am ddiogelu'r Gymraeg a gwasanaethau dwyieithog.

- **Codi tâl am wasanaethau**

Yn gyffredinol roedd y sylwadau a ddaeth i law o blaid codi tâl cyhyd ag y byddai hynny'n diogelu gwasanaethau. Fodd bynnag, pe bai pobl yn talu rhagor, byddent yn disgwyl i'r Cyngor fod yn fwy atebol am sicrhau ei fod yn defnyddio'i holl adnoddau yn y ffordd orau bosibl.

- **Modelau gwasanaeth gwahanol/Cynghorau Tref a Chymuned/Cyfranogiad Cymunedol/Gwirfoddoli**

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r syniad o wneud pethau'n wahanol, er enghraifft, cael gwasanaethau gan gyrff allanol, defnyddio mentrau cymdeithasol, cyrff / ymddiriedolaethau elusenol. Rhai o'r meysydd y teimlwyd y byddent yn elwa o fabwysiadu modelau eraill o ddarparu gwasanaethau oedd gwasanaethau hamdden, Clwyd Theatr Cymru, dylunio eiddo, gwastraff ac ailgylchu. Awgrymwyd ffyrdd creadigol eraill o ddatrys problemau hefyd fel cynlluniau troi gwastraff yn ynni ac ynni adnewyddadwy a mentrau cyllid preifat.

Yn gyffredinol, roedd 68% o blaid datganoli rhai gwasanaethau i Gymunedau Tref a Chymuned a chyrff gwirfoddol. O'r ymateb a gafwyd, mae'n amlwg y byddai angen cyflwyno cyllidebau cliriach a throsglwyddo'r sgiliau a'r wybodaeth briodol. Cafwyd ymateb cymysg i raglenni gwirfoddoli. Byddai rhai'n croesawu'r cyfle i gyfrannu ac i sicrhau bod cryfder rhwydwaith gwirfoddolwyr Sir y Fflint yn cael ei gydnabod. Roedd eraill yn amau a ellid cynnal y rhaglenni gwirfoddoli a'r arbenigedd proffesiynol a'r modd y byddent yn effeithio ar yr economi leol.

- **Uno gwasanaethau'r Cyngor**

Yn gyffredinol, roedd pobl o blaid uno gwasanaethau'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon i ardal ddaearyddol ehangach. Roedd rhai o'r ymatebwyr o blaid uno Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych yn hytrach na dim ond Sir y Fflint a Wrecsam, fel y mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu. Roedd rhai'n teimlo hefyd y dylid gwneud hyn yn fuan.

Roedd sylwadau eraill yn tanlinellu'r amheuaeth ynghylch y gost o ad-drefnu cynghorau.

- **Awgrymiadau ar gyfer arbed arian drwy weithio'n fwy effeithlon**  
Y pwnc hwn ddenodd yr ymateb mwyaf. Cafwyd awgrymiadau'n ymwneud â meysydd amrywiol iawn, o wasanaethau rheng flaen i strategaethau lefel uchel e.e. costau postio, rhesymoli'r gweithlu, gwella effeithlonrwydd a pherfformiad, gwella gwasanaethau cwsmeriaid, gwella gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu, arbed arian ar oleuadau stryd, defnyddio adeiladau'r Cyngor mewn ffordd fwy effeithiol a rhesymoli asedau cymunedol, ysgolion a chludiant cyhoeddus, y celfyddydau, diwylliant a hamdden.
- **Y broses ymgynghori**  
Cafwyd awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r broses ymgynghori ac ymgysylltu.
- **Sylwadau cyffredinol**  
Cafwyd nifer o sylwadau cyffredinol hefyd yn amlygu barn bersonol am amrywiol bynciau fel rheoli cyllidebau'r DU, Cymru a'r sir.

### **Y cyfryngau cymdeithasol - Twitter @FlintshireCC**

Cynhaliwyd ymgyrch Twitter rhwng 18 Awst a 15 Medi. Ddydd Llun 1 Medi, cymerodd Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor ran mewn dadl fyw ar Twitter am ddwy awr.

Dros yr ymgyrch 4 wythnos, cymerodd 56 o bobl ran yn y drafodaeth ar Twitter ac ymunodd 11 yn y ddadl fyw ar-lein. Dilynodd nifer o unigolion a sefydliadau'r sgwrs, gan ail-drydar a nodi'r sgwrs fel ffefryn, heb ymuno yn y sgwrs yn uniongyrchol.

Rhodddwyd sylw i bynciau fel y posibiladau o ran twf refeniw a chynhyrchu incwm, uno cynghorau i arbed arian a diogelu gwasanaethau rheng flaen.

### **Y broses ymgynghori**

#### **Y fethodoleg a ddefnyddiwyd:**

Ymgynghoriad dwyieithog, ar-lein, hunanddewisol oedd hwn a defnyddiwyd meddalwedd Survey Monkey drwy gyfrwng:

- y cylchgrawn ar-lein newydd, 'Eich Cyngor Chi'
- gwefan siryfflint/CyllidebCSyFf
- y cyfrif Twitter corfforaethol @CSyFflint
- nifer o gopiâu papur a ddosbarthwyd ymhlith llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, swyddfeydd SyFf yn Cysylltu a derbynfeydd y Cyngor.

## **Pwy oedd yn gallu cymryd rhan:**

Roedd yr ymgynghoriad yn agored i bawb a defnyddiwyd dulliau amrywiol er mwyn cael ymateb gan gynifer â phosibl gan gynnwys::

### **E-bost**

- Yr holl aelodau etholedig
- Rheolwyr y Cyngor
- Gweithlu'r Cyngor
  - Prif faner ar fewnwyd y Cyngor
  - E-bost uniongyrchol i ddefnyddwyr Notes
  - E-bost uniongyrchol i reolwyr i ofyn iddynt roi gwybod i weithwyr heb e-bost
- Ysgolion
  - Moodle
  - E-bost uniongyrchol i benaethiaid gan ofyn iddynt roi gwybod i'r holl staff
- Tanysgrifwyr y cylchgrawn ar-lein 'Eich Cyngor Chi'
- Cyfrif corfforaethol Twitter
- Rhwydweithiau / grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau e.e. pobl hŷn, pobl ifanc, grwpiau cydraddoldeb, tenantiaid, busnesau
- Partneriaid e.e. heddlu Gogledd Cymru, BCUHB, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint gan ofyn iddynt dynnu sylw at yr ymgynghoriad ar eu gwefan a'u mewnwyd
- Tanysgrifwyr OWLWatch

### **Gwefan y Cyngor**

- Dolen ar yr hafan i Eich Cyngor Chi
- Dolen ar wefan Sgwrs Fawr am y Gyllideb
- Dolen ar wefan y cylchgrawn ar-lein Eich Cyngor Chi

### **Y cyfryngau cymdeithasol - Twitter**

- @CSyFflint

### **Y cyfryngau**

- Gwybodaeth i'r wasg
- Datganiadau i'r wasg

### **Digitally Excluded**

- Roedd copïau papur i'w cael mewn llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, swyddfeydd Sir y Fflint yn Cysylltu, derbynfydd yn adeiladau'r Cyngor
- Roedd cyfrifiaduron cyhoeddus yn y llyfrgelloedd a swyddfeydd Sir y Fflint yn agor ar wefan Sgwrs Fawr am y Gyllideb

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cofnodwyd yr ystadegau a ganlyn:

	Saeseng	Cymraeg
Y nifer a aeth i dudalen 1 o 'Eich Cyngor Chi'	7625	400
Y nifer a aeth i dudalen 'Dywedwch eich barn' yn Eich Cyngor Chi'	2368	70
Nifer a edrychodd ar dudalen y 'Sgwrs Fawr am y Gyllideb'	10924	27
Nifer a edrychodd ar dudalennau'r 'cylchgrawn ar-lein'	1380	5

Un o brif amcanion yr ymgynghoriad oedd codi ymwybyddiaeth a helpu pobl i ddeall y problemau sy'n ein hwynebu cyn cynnal ymgynghoriadau eraill yn ddiweddarach eleni ynghylch dewisiadau/cynigion manylach. Byddai'r ffigurau uchod yn awgrymu bod y 'sgwrs' wedi cyfrannu cryn dipyn at y broses.

## Gwybodaeth ddemograffig

### Sut roedd pobl yn eu disgrifio'u hunain

Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
1 Rwy'n byw yn Sir y Fflint	41.9%	278
2 Rwy'n gweithio yn Sir y Fflint	8.9%	59
3 Rwy'n byw ac y gweithio yn Sir y Fflint	44.0%	292
4 Rwy'n cynrychioli busnes yn Sir y Fflint	1.4%	9
5 Rwy'n cynrychioli busnes y tu allan i Sir y Fflint	0.3%	2
6 Rwy'n cynrychioli sefydliad yn Sir y Fflint	2.0%	13
7 Rwy'n cynrychioli sefydliad y tu allan i Sir y Fflint	0.2%	1
8 Rwy'n ymweld â Sir y Fflint	0.3%	2
9 Arall	1.2%	8
Heb ateb		26

Os dewiswyd ateb 2 neu 3 uchod, gofynnwyd cwestiwn ategol 'Ydych chi'n gweithio i Gyngor Sir y Fflint?'. Yn gyffredinol roedd 32% o'r rhain yn gweithio i'r Cyngor.



## Dewis iaith

Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Saesneg	96.9%	626
Cymraeg	2.9%	19
Arall	0.2%	1
Heb ateb		44

## Oed

Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Dan 16	0.0%	0
16 - 24	3.0%	19
25 - 34	11.8%	75
35 - 44	24.1%	153
45 - 54	24.8%	158
55 - 64	21.7%	138
65 - 74	11.5%	73
75 +	3.1%	20
Heb ateb		54

## Rhyw

Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Dyn	45.1%	283
Merch	51.0%	320
Well gen i beidio â dweud	3.8%	24
Heb ateb		63

## Anabledd

Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Ydw	7.2%	45
Nac ydw	86.8%	539
Well gen i beidio â dweud	6.0%	37
Heb ateb		69

## Ethnigrwydd

Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Gwyn	98.6%	620
Cymysg	0.3%	2
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig	0.2%	1
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	0.0%	0
Arall	1.0%	6
Heb ateb		61

Os atebwyd 'Arall' aethant ymlaen i ddewis un o'r canlynol: well gen i beidio â dweud, Cymreig, Prydeinig..., Eingl-gymreig, Ewropeaidd gwyn.

### Y camau nesaf


Mae sgysiau cychwynnol ar y gweill gyda chynghorau tref a chymuned a sefydliadau lleol am y modd gellid datrys problemau'n lleol.

Rydym wrthi'n cynllunio'r ffordd orau o rannu'r posibiliadau a'r cynigion yn ddiweddarach eleni.

## Graffiau a siartiau

### Cwestiwn 1


Pa mor bryderus ydych chi am y risgiau i wasanaethau cyngor lleol oherwydd toriadau parhaus yn y gyllideb genedlaethol?



Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Yn bryderus iawn	72.1%	491
Yn bryderus	23.3%	159
Ddim yn bryderus iawn	4.6%	31
<b>wedi ateb y cwestiwn</b>		<b>681</b>
<b>heb ateb y cwestiwn</b>		<b>9</b>

## Cwestiwn 2


Ydych chi'n credu y dylai gwasanaethau cyngor lleol gael mwy o amddiffyniad mewn penderfyniadau cenedlaethol ynglŷn â'r gyllideb?



Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Ydw - eu diogelu yn llwyr	45.3%	307
Ydw - eu diogelu yn rhannol	47.1%	319
Nac ydw - peidio â'u diogelu	7.7%	52
<b>wedi ateb y cwestiwn</b>		<b>678</b>
<b>heb ateb y cwestiwn</b>		<b>12</b>

### Cwestiwn 3


Ydych chi'n credu y dylem i gyd fynegi barn fel bod Llywodraethau Cenedlaethol a Chymru yn deall ein pryderon am y risgiau i wasanaethau lleol?



Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Ydw	95.6%	645
Nac ydw	4.4%	30
<b>wedi ateb y cwestiwn</b>		<b>675</b>
<b>heb ateb y cwestiwn</b>		<b>15</b>

## Cwestiwn 4


A ddylai cynghorau lleol ddod ynghyd i ddarparu gwasanaethau os yw'n golygu y gellir eu rhedeg yn fwy effeithlon?



Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Dylent	84.6%	572
Na ddylent	15.4%	104
<b>wedi ateb y cwestiwn</b>		<b>676</b>
<b>heb ateb y cwestiwn</b>		<b>14</b>

## Cwestiwn 5


Fuasech chi'n cefnogi'r Cyngor pe buasai'n rhaid iddo newid y ffordd mae'n darparu rhai o'l wasanaethau oherwydd y pwysau mae'n wynebu yn sgil y toriadau yn y gyllideb genedlaethol?



Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Buaswn - newidiadau mawr	26.0%	176
Buaswn – rhai newidiadau	67.6%	457
Na fyddwn - ddim dan unrhyw amodau	6.4%	43
<b>wedi ateb y cwestiwn</b>		<b>676</b>
<b>heb ateb y cwestiwn</b>		<b>14</b>

## Cwestiwn 6

A fydddech yn cefnogi'r Cyngor pe bai'n codi pris uwch am wasanaethau os byddai'n golygu y gellir diogelu gwasanaethau?




Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Byddwn – dan unrhyw amodau	7.7%	52
Byddwn – pe bai'r gost yn fforddiadwy	75.0%	505
Na fyddwn - ddim dan unrhyw amodau	17.2%	116
<b>wedi ateb y cwestiwn</b>		<b>673</b>
<b>heb ateb y cwestiwn</b>		<b>17</b>



## Cwestiwn 7


Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cadw ei gynnydd Treth y Cyngor tua 3%. A fydddech chi'n cefnogi'r Cyngor i godi ei Dreth y Cyngor i lefel uwch?



Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Byddwn – dan unrhyw amodau	5.5%	37
Byddwn – pe bai'r gost yn fforddiadwy	50.6%	342
Na fyddwn - ddim dan unrhyw amodau	43.9%	297
<b>wedi ateb y cwestiwn</b>		<b>676</b>
<b>heb ateb y cwestiwn</b>		<b>14</b>

## Cwestiwn 8


A ddylid gofyn i gynghorau tref a chymuned a mudiadau gwirfoddol gynnal rhagor o wasanaethau a chyfleusterau lleol e.e. cynnal adeiladau cymunedol lleol, cynnal a chadw manau agored lleol, addurno a chynnal a chadw adeiladau ysgol lleol?



Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Dylid	68.1%	458
Na ddylid	31.9%	215
<b>wedi ateb y cwestiwn</b>		<b>673</b>
<b>heb ateb y cwestiwn</b>		<b>17</b>

## Cwestiwn 9


Faint o ddiddordeb fyddai gennych mewn cymryd rhan wrth helpu i gynnal gwasanaethau lleol yn eich cymuned eich hun?



Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Diddordeb mawr	12.7%	85
Diddordeb	47.5%	319
Dim diddordeb	39.8%	267
<b>wedi ateb y cwestiwn</b>		<b>671</b>
<b>heb ateb y cwestiwn</b>		<b>19</b>

## Cwestiwn 10

Dim ond dechrau'r sgwrs yw hyn. Yn ddiweddarach eleni, byddwch yn cael cyfle i ddweud wrthym beth yw eich barn am opsiynau/cynigion manylach. Sut fyddai'n well gennyh gymryd rhan?



Atebion posibl	Canran o'r ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Wyneb yn Wyneb	34.9%	228
'Eich Cyngor' - e-gylchgrawn	35.5%	232
Gwefan	61.9%	405
Twitter @CSyFflint	11.2%	73
Arall	5.7%	37
	<b>wedi ateb y cwestiwn</b>	<b>654</b>
	<b>heb ateb y cwestiwn</b>	<b>36</b>